Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Clerc y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**trwy e-bost:**
SeneddDeisebau@Cynulliad.cymru

16/07/2015

Annwyl Syr/ Madam

**Adolygiad o System Ddeisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Diolch i chi am y cyfle i gyflwyno ymateb i'r Pwyllgor Deisebau ar yr adolygiad uchod.

**Cyd-destun**

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i fy ngwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd byddaf yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi ei hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (y Mesur). Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith yn unol ag adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993; ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru yn unol ag adran 111 y Mesur ac, yn y dyfodol, ymchwilio i fethiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 71 y Mesur.

Yn ychwanegol, ac yn unol ag adrannau 8-10 y Mesur, caiff y Comisiynydd gychwyn achos cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, neu ymyrryd mewn achos o'r fath, os yw'n ymddangos i mi fod yr achos yn un sy'n berthnasol i fater sydd o dan fy swyddogaeth. Yn yr un modd, caiff ddarparu cymorth i unigolyn os yw'r person hwnnw yn barti, neu os gall y person hwnnw ddod yn barti, i achos cyfreithiol gwirioneddol neu achos cyfreithiol posib yng Nghymru neu Lloegr.

**Adolygiad o'r System Ddeisebau**

Rwyf am ymateb yn benodol i gwestiwn 11 yr ymgynghoriad, oedd yn gofyn a ddylai'r Pwyllgor Deisebau allu cyfeirio deisebau i'r Ombwdsmon neu i ddeiliaid swyddi tebyg, lle mae'n credu bod sail iddynt ymchwilio.

Fel y nodir uchod rwy'n ymchwilio i fethiannau gan gyrff cyhoeddus sydd â chynlluniau iaith i gadw at y cynllun lle bo gennyf amheuaeth nad yw'n gwneud hynny.  Rwyf hefyd yn ymchwilio i honiadau o ymyrraeth a rhyddid unigolyn i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall. Mae'r wybodaeth sydd yn arwain at gynnal ymchwiliad yn fy nghyrraedd o nifer o lefydd gwahanol gan gynnwys cwynion gan ddefnyddwyr gwasanaethau Cymraeg neu aelodau'r cyhoedd, gwaith monitro parhaus gan fy swyddogion, ynghyd â gwybodaeth arall sydd yn y pau cyhoeddus.


Byddai cyfeirio deisebau am faterion perthnasol sydd o dan fy swyddogaeth, lle mae'r Pwyllgor Deisebau yn credu bod sail i gynnal ymchwiliad, yn ffordd ychwanegol i'r hyn a nodir uchod o'm gwneud yn ymwybodol o unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n achosi problemau posib ac y dylwn ystyried ymchwilio iddynt.

Mae adrannau 20 a 21 y Mesur yn cadarnhau sut byddaf yn gweithio ar y cyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac yn gyfochrog gydag ombwdsmyn a chomisiynwyr eraill. Gallai'r Pwyllgor Deisebau elwa o roi sylw i'r adrannau uchod o'r Mesur os yw'r Pwyllgor am i'r berthynas gyda Chomisiynydd y Gymraeg fod yn sylweddol wahanol, a gweithio'n gyfochrog gyda'r Comisiynydd yn ogystal a throsglwyddo gwybodaeth i'r gorfforaeth.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mae croeso i chi gysylltu â mi os ydych am drafod yr ymateb ymhellach.

Yn gywir



**Meri Huws**

Comisiynydd y Gymraeg